| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **14 Tachwedd 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Steve Price, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd** |
| **Teitl:** | **Adroddiadau Blynyddol gan Aelodau** |

---

## 1. Am beth mae’r adroddiad yn sôn?

Er mwyn cryfhau democratiaeth lleol, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaethau yn gofyn i awdurdodau lleol wneud trefniadau i alluogi eu holl aelodau gyflwyno adroddiadau blynyddol ynglŷn â'u gweithgareddau yn y cyngor.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio’r adroddiad hwn?

Mae cynghorwyr Sir Ddinbych yn cwblhau eu hadroddiadau blynyddol ar hyn o bryd ac felly mae’n amserol bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn trafod ac yn adolygu’r cynnydd. Mae Canllaw Statudol Llywodraeth Cymru wedi’i atodi fel Atodiad 1.

## 3. Beth yw'r argymhellion?

Bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn ystyried ac yn cyflwyno sylwadau ynglŷn â threfniadau a chynnydd mewn perthynas â'r adroddiadau blynyddol gan yr aelodau.

## 4. Manylion am yr adroddiad

4.1 Mae’r Mesur yn gofyn i bob awdurdod lleol i wneud trefniadau er mwyn i bob aelod allu llunio adroddiad blynyddol ynglŷn â’u gweithgareddau yn eu rôl fel cynghorydd ac i gyhoeddi’r holl adroddiadau hynny; gyda threfniadau cyhoeddi cyfartal ar gyfer yr holl Aelodau. Bydd yr adroddiadau blynyddol yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor.

4.2 Mae’r Canllaw Statudol yn galluogi’r awdurdodau lleol i osod cyfyngiadau ar gynnwys yr adroddiadau a dylent fod yn ffeithiol a chanolbwyntio ar gyfarfodydd, digwyddiadau, cynadleddau, hyfforddiant a datblygu. Ym mis Rhagfyr 2012 gofynnodd y Pwyllgor am dempled wedi'i baratoi gyda’r meysydd priodol (e.e. Presenoldeb mewn cyfarfodydd). Yn unol â hyn mae templed wedi’i gylchredeg i’r holl aelodau i alluogi iddynt gynhyrchu adroddiadau blynyddol ac mae templed gwag wedi’i atodi yn Atodiad 2. Bydd ffigyrau nifer yr adroddiadau blynyddol sydd wedi'u dychwelyd hyd yn hyn yn cael eu hadrodd ar lafar i’r Pwyllgor yn y cyfarfod.

4.3 Gan fod rhai cyfyngiadau ynglŷn â’r hyn y gellir ei gynnwys mewn adroddiad blynyddol, bydd angen cam adolygu neu olygu cyn cyhoeddi, er mwyn sicrhau fod y cynnwys yn cydymffurfio â’r Canllaw Statudol ac unrhyw gyfyngiadau a osodwyd gan y Cyngor. Gwahoddir safbwynt y Pwyllgor ynglŷn â'r broses hon, er enghraifft a oes gan arweinwyr grŵp rôl ar gyfer aelodau eu grwpiau neu beidio.

4.4

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae’r materion sydd wedi’u cynnwys yn yr adroddiad hwn yn ofynion statudol ond byddai eu bwriad yn addas ar gyfer maes blaenoriaeth y Cyngor *Moderneiddio’r Cyngor i Ddarparu Effeithlonrwydd a Gwella Gwasanaethau ar gyfer ein Cwsmeriaid.*

**6. Faint fydd yn hyn yn costio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Bydd cefnogi cynhyrchu a chyhoeddi adroddiadau blynyddol yr aelodau yn creu gwaith ychwanegol ar gyfer y swyddogion cefnogi ond gellir cynnwys yr effaith yn yr adnoddau sy’n bodoli eisoes.

**7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill, ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?**

Cynhaliwyd ymgynghoriad ynglŷn â gofynion adrodd blynyddol gyda’r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ym mis Rhagfyr 2012 mewn ymateb i gyhoeddi canllaw statudol. Ni nodwyd unrhyw oblygiadau cydraddoldeb o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

**8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oedd angen datganiad ganddo ar gyfer yr adroddiad hwn.

**9. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Mae gweithgareddau newydd, ychwanegol megis trefniadau i gefnogi adroddiadau blynyddol yn lleihau'r cynhwysedd sydd ar gael i gefnogi democratiaeth leol.

**10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Adran 5 Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 2011